**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Darren Millar AS
Aelod o’r Senedd dros Dde Clwyd

darren.millar@senedd.cymru

23 Mehefin 2023

Annwyl Darren,

**Cywiro gwybodaeth ar gyfer cwestiwn amserol TQ772.**

Hoffwn ofyn am gywiriad i wybodaeth a roddwyd yn fy ateb i’ch cwestiwn amserol ar 10 Mai 2023.


Hoffwn i gywiriadau gael eu gwneud i'r ateb a roddwyd am 15:14:30 ynghylch pedwar achos fasgwlaidd a gyfeiriwyd at Grwner Ei Fawrhydi gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fel rhan o'r broses o adolygu ansawdd gwasanaethau fasgwlaidd.

Yn fy ateb, dywedais i adroddiad gael ei gyhoeddi gan Goleg Brenhinol y Llawfeddygon (RCS) yn 2023. Roedd hyn yn anghywir. Cynhyrchwyd yr adroddiad a gyhoeddwyd ar 31 Ionawr 2023 gan y Panel Annibynnol ar Ansawdd Gwasanaethau Fasgwlaidd ac fe'i comisiynwyd gan y Bwrdd Iechyd ar ôl adroddiad RCS a gyhoeddwyd ym mis Mai 2021, ac y dilynodd rhan dau ohono ym mis Chwefror 2022.

Mae'r 27 o argymhellion y cyfeiriwyd atynt yn fy ymateb yn argymhellion sy'n ymwneud ag adroddiad y Panel Annibynnol ar Wasanaethau Fasgwlaidd yn unig. Mae'r 27 o argymhellion yn cwmpasu ystod eang o feysydd gan gynnwys effeithiolrwydd llwybrau clinigol, llywodraethu clinigol, atebolrwydd ac ymarfer, a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Hoffwn ofyn bod y cofnod yn cael ei ddiwygio a'i ddiweddaru gyda'r cywiriadau a amlinellir uchod.

Yn gywir



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.